# Ysgol Parc y Tywyn



'Nid da lle gellir gwell'

## Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i rieni

## 2021-22

YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN

Nid da lle gellir gwell

*CORFF LLYWODRAETHU YSGOL PARC Y TYWYN NO. 108*

| *Math o Lywodraethwyr* | *Enw* | *Dyddiad gorffen tymor y swydd* |
|---|---|---|
| ***Awdurdod Lleol*** | ***Cllr John James*** | ***31-08-2024*** |
| ***Awdurdod Lleol*** | ***Cllr Huw B Shepardson*** | ***31-08-2024*** |
| ***Awdurdod Lleol*** | | |
| | | |
| ***Pennaeth*** | ***Mr Craig Davies*** | ***31-08-2022*** |
| | | |
| ***Llywodraethwr Cymunedol*** | ***Cllrs Mrs MoiraThomas*** | ***19-06-2024*** |
| ***Llywodraethwr Cymunedol*** | ***Mrs Nest Griffiths*** | ***23-11-2024*** |
| ***Llywodraethwr Cymunedol*** | ***Cllr Lisa Mitchell*** | ***19-03-2022*** |
| ***Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol*** | ***Mrs A Griffin*** | ***09-07-2022*** |
| | | |
| ***Rhiant Lywodraethwr*** | ***Mr Matthew Davies (Chair)*** | ***23-10-2023*** |
| ***Rhiant Lywodraethwr*** | ***Ms Jan Godfrey-Coles*** | ***29-04-2025*** |
| ***Rhiant Lywodraethwr*** | ***Mrs Sian Denman*** | ***27-02-2024*** |
| ***Rhiant Lywodraethwr*** | ***Mrs Rhiannon Young*** | ***14-10-2025*** |
| | | |
| ***Llywodraethwr Staff*** | ***Mrs Sian Elias Morris*** | ***03-11-2025*** |
| | | |
| ***Athro-Lywodraethwr*** | ***Miss Helen Roberts*** | ***10-11-2023*** |

***Clerc y Corff Llywodraethol:***

Mrs E.Gower,  c/o Ysgol Parc y Tywyn, Heol y Bardd, Burry Port. Carmarthenshire.
SA16 0NL
Ffôn: 01554 832101
E-bost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru

# Llythyr y Cadeirydd

Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethol

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn (Hydref 2022)

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol am y flwyddyn a fu. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno gwybodaeth statudol ac angenrheidiol i chi rieni. Rwy'n siŵr fy mod yn siarad ar ran yr holl aelodau wrth fynegi fy niolch i arweinwyr, athrawon, cynorthwywyr dysgu, staff ategol, chi rhieni / gwarcheidwaid ac wrth gwrs y disgyblion am eu gwaith diflino dros y tymhorau diwethaf. Mae'r diolch i chi am lwyddiant cyson yr ysgol.

Rydym yn achub ar bob cyfle i bwysleisio gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol o Annog Annibyniaeth, Bachu Brwdfrydedd a Chyfoethogi Creadigrwydd ac mae'n amlwg fod y rhain yn parhau i ddylanwadu'n bositif ar y disgyblion. Esiampl grêt o hyn oedd cynhyrchiad diweddar yr ysgol o 'Dewin yr Oz'. Am sioe! Roedd yn bleser gweld y disgyblion a'u doniau di-ri yn mwynhau mas draw ar y llwyfan. Yn wir, dyma beth oedd angen i godi ysbryd yn dilyn siom ein tîm cenedlaethol yng Nghwpan y Byd. Heb os, mae rhaid cydnabod y gwaith, amser ac egni sydd yn mynd mewn i gynnal y fath gynhyrchiad. Diolch i'r staff, chi rhieni ar gymuned am greu cyfle anhygoel arall i'r disgyblion.

Mae byd addysg yng Nghymru ynghanol cyfnod o drawsnewid a braf yw clywed am daith lwyddiannus a chyffrous yr ysgol hyd yma, nid yn unig tuag at Gwricwlwm i Gymru ond Cwricwlwm i Barc y Tywyn. Unwaith eto, cyfle am brofiadau gwerthfawr a pherthnasol i bob un o'r dysgwyr ifanc. Braf yw clywed am daith yr ysgol i fod yn sefydliad adferol a datblygiad y system 'Bydis' – diolch blwyddyn 4. Mae hefyd yn grêt clywed bod yr ysgol yn araf ddychwelyd i'r arfer gyda gweithgareddau allgyrsiol di-ri wedi eu cynnig eleni ynghyd a nifer o ymwelwyr yn dod at yr ysgol. Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cynrychioli'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Nifer o gampau a digonedd o lwyddiant.

Wedi i ni fwynhau'r Nadolig a symud tuag at y Gwanwyn, un o'r blaenoriaethau bydd parhau i ddatblygu ardal allanol yr ysgol. Gwelwch yn yr adroddiad bod hwn yn flaenoriaeth i'r cyngor ysgol ac rydym yn aros yn eiddgar i glywed y cynlluniau cyffrous. Rydym wedi clywed yn barod bod awydd mawr am byst rygbi a phêl droed ar gyfer y cae ynghyd ag ardal perfformio – llwyfan awyr agored. Mae amgylchedd allanol yr ysgol yn llawn botensial ac rydym fel bwrdd llywodraethol yn awyddus ein bod yn manteisio ar bob cyfle er mwyn datblygu ac adeiladu ar y profiadau posib i'r disgyblion.

Gwelwch yn yr adroddiad bod cyfartaledd presenoldeb yr ysgol yn dda gan ystyried yr amgylchiadau a gwynebir yn ystod y flwyddyn. Serch hynny, rydym yn ymwybodol bod nifer helaeth yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu datblygiad, ac yn tarfu ar eraill. Rydym yn eich annog i wneud pob ymdrech i sicrhau prydlondeb.

Yn ddiweddar, wrth i ni ddechrau setlo nôl i'r arfer yn dilyn y pandemig, roeddwn fel ysgol yn gwynebu cyfnod o drawsnewid. Roedd rhaid ffarwelio a Mr Davies, ein cyn pennaeth, a chroesawi Mrs Davies a Mrs Zych fel ein pennaeth a dirprwy dros dro. Mae hyn yn gyfle i fynegi balchder yn y modd mae'r ysgol wedi llwyddo i wynebu'r trawsnewid yma mewn modd proffesiynol ac effeithiol. Diolch i bawb am hyn.

Fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn llwyddiannus i benodi Mrs Angharad Williams fel ein pennaeth newydd parhaol. Rydym yn edrych ymlaen at Mrs Williams dechrau yn swyddogol gyda ni ym Mis Ionawr ac yn diolch i Mrs Davies, y staff ar disgyblion am groesawi Mrs Williams i'r ysgol ar sawl achlysur yn barod er mwyn sicrhau bod y trawsnewid mor esmwyth â phosib. Hoffwn ddiolch i'r disgyblion, staff a holl rhanddeiliaid yr ysgol am eu mewnbwn yn ystod y broses penodi. Mae'r diolch olaf yn mynd at Mrs Davies a'i thîm rheoli am

eu parodrwydd i arwain yr ysgol yn llwyddiannus a ddidrafferth dros y tymor diwethaf. Diolch!
Gobeithio i chi gweld yr adroddiad yma yn werthfawr gan ddiolch unwaith eto i chi fel rhieni am eich cydweithrediad parhaus er fudd ein dysgwyr ifanc. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi.

Cyfarfod Blynyddol y Llywodraethwyr gyda Rhieni

Mae Adran 94 y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gwneud newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol blaenorol oedd yn ymwneud â Chyfarfodydd Blynyddol y Rhieni/Llywodraethwyr. Mae'n darparu trefniadau newydd lle gall rhieni ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethol. Fodd bynnag, bydd angen i'r rhieni fodloni pedwar (4) gofyniad statudol wrth alw cyfarfod sef: -

(i) rhaid i rieni 10% o'r disgyblion cofrestredig, neu rieni 30 o'r disgyblion cofrestredig (pa un bynnag sydd isaf) arwyddo deiseb yn gofyn am gyfarfod;

(ii) rhaid mai diben y cyfarfod yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol;

(iii) y nifer fwyaf o gyfarfodydd y gall rhieni ofyn amdanynt o fewn unrhyw flwyddyn ysgol yw tri (3);

(iv) rhaid bod yna ddigon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i ganiatáu cyfarfod.

At hynny: -
(a) rhaid cynnal y cyfarfodydd cyn diwedd cyfnod o 25 niwrnod;

(b) mae'r cyfnod o 25 niwrnod yn cychwyn y diwrnod ar ôl derbyn y ddeiseb, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod ysgol;

(c) os oes angen cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol, ni fydd y cyfnod o 25 niwrnod yn dechrau tan y diwrnod ar ôl cynnal y cyfarfod arall;

(ch) rhaid bod digon o ddyddiau ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal cyfarfod cyn diwedd y cyfnod o 25 niwrnod;

(d) bydd cyfarfodydd yn agored i holl rieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y Pennaeth ac unrhyw un arall a wahoddir gan y corff llywodraethol;

(dd) mae'n rhaid i hysbysiad y cyfarfodydd i'r rhieni gynnwys dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ynghyd â'r mater neu faterion i'w trafod.

Gweler mwy o wybodaeth yma - Cyfarfod â rhieni: canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu | LLYW.CYMRU

Trefniadau etholiad nesaf y Corff Llywodraethol
Mi fydd yr Awdurdod Addysg a'r ysgol yn hysbysu rhieni / gwarcheidwaid am drefniadau unrhyw gyfleoedd i fod yn rhan o'r Corff Llywodraethol a threfniadau etholiadau.

Yn gywir,
*Mathew Davies*
**Chair of Governing Body**

# Llythyr y Cadeirydd

Y mae copi o'r adroddiad hwn ar gael yn Adran y Llywodraethwyr ar safle we'r ysgol - https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/

Clerc y Llywodraethwyr – Mrs Eleri Gower (Clerc i'r Llywodraethwyr), Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, Heol y Bardd, Porth Tywyn, Sir Gaerfyrddin, SA16 0NL.

Cadeirydd y Llywodraethwyr – Mr Mathew Davies, Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethol), Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, Heol y Bardd, Porth Tywyn, Sir Gaerfyrddin, SA16 0NL.
DaviesM1926@hwbcymru.net

# Cynnydd ar Gynllun Gweithredu'r Ysgol

**Mae Ysgol Gymunedol Gymraeg Parc y Tywyn yn ysgol gyfrwng Cymraeg. Caiff plant eu trochi yn yr iaith Gymraeg wrth fynd i mewn i'r Meithrin. Prif iaith y cyfarwyddyd trwy gydol y cyfnodau ysgol yw Cymraeg. Fodd bynnag, dysgir Saesneg mewn gwersi o flwyddyn 3 ymlaen ac mae pwyslais ar ddwyieithrwydd yn sicrhau bod disgyblion yn cyflawni safonau uchel yn y ddwy iaith erbyn diwedd POD 3 (Blwyddyn 6)**



**Mae’r Pennaeth yn cyfarfod â darpar rieni cyn i’w plant ddechrau ac esbonio manteision dwyieithrwydd. Caiff y neges hon ei ailadrodd gan yr holl staff addysgu mewn cyfarfodydd rhieni ayb.**




**Caiff rhieni eu cynorthwyo a'u cefnogi gan athrawon wrth helpu gyda thasgau gwaith cartref. Mae pob dosbarth yn cael gwaith cartref. Mae gwaith cartref yn cael ei ddosbathu yn dymhorol ac yn dilyn trefn bwydlen. Annogir plant i gwblhau un dasg yn wythnosol o’r fwydlen a darllen, sillafu a dysgu tablau yn ychwanegol i hyn.**



Ysgol uwchradd Ysgol Parc y Tywyn yw Ysgol y Strade. Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol y Strade. Trefnir gweithgareddau ar y cyd trwy gydol Blwyddyn 5 a 6 a chynhelir nosweithiau rhieni fel bod y pontio mor llyfn â phosibl.








Mae'r disgyblion yn dilyn cwricwlwm thematig. Caiff themâu eu trefnu a'u cynllunio'n ofalus ar gyfer pob ystod oedran gan sicrhau ymdriniaeth gyflawn o'r cwricwlwm.

Mae grwpiau ymyrraeth yn cael eu ffurfio ar sail y profion a weinyddir ac Asesiadau Athrawon. Addysgir disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol mewn meysydd penodol mewn grwpiau. Defnyddir strategaethau ymyrraeth fel ‘Darllen gyda Sam’ a ‘CHATT’. Caiff cynnydd pob dysgwr ei olrhain yn rheolaidd ac yn ofalus gan ddefnyddio Incerts a systemau olrhain yr ysgol.

Mae'r ysgol yn parhau â'i hymdrech i atgyfnerthu pwysigrwydd materion amgylcheddol. Mae'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn chwilio am ffyrdd y gall arferion ecogyfeillgar ddod yn rhan o fywyd yr ysgol. Mae llais y disgybl yn bwysig ac maen nhw wedi bod yn casglu gwybodaeth ac yn gweithredu ar eu syniadau er mwyn datblygu’r gofod awyr agored rydyn ni’n lwcus i’w gael yn Ysgol Parc y Tywyn.





Mae ffrwythau'n cael eu bwyta yn ystod amser egwyl a'u cludo o'r cartref. Mae bwyta'n iach yn rhan o'r cwricwlwm Iechyd a Lles.

Oherwydd pandemig Covid-19, mae Llywodraeth Cymru wedi dileu’r gofyniad i’r ysgol adrodd ar ddata perfformiad a phresenoldeb. Ymdrechir i gynyddu presenoldeb ac mae absenoldebau parhaus yn cael eu targedu a’u hannog i fod yn brydlon.



Mae ein ymdrech i hyrwyddo’r Gymraeg yn yr ysgol yn parhau i annog disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg y tu allan i’r ystafell ddosbarth yn ogystal â’r tu mewn. Mae POD 1 a 2 yn defnyddio’r pentref chwarae rol er mwyn hybu’r iaith Gymraeg a dysgu patrymau iaith mewn modd chwarae strwythiedig. Denfyddir Cynllun Clonc drwy’r ysgol gyfan er mwyn gwella’r defnydd o’r Gymraeg.

Mae'r tîm Cynllun Gwên wedi darparu brwsys a past dannedd i'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac mae brwsio dannedd dyddiol wedi ail-ddechrau yn yr ysgol.



Rydym yn parhau ar ein taith i fod yn Ysgol Adferol ac wedi hyfforddi aelodau o Flwyddyn 4 i fod yn Cyfryngwyr Cymheiriaid neu ‘BYDIS’ ar yr iard. Mae pob aelod o’r staff wedi derbyn hyfforddiant Dull Adferol ac yn defnyddio ymchwiliad adferol wrth trafod digwyddiadau gyda pob plentyn.

Rydym yn defnyddio sesiynau amser cylch a system SpeakR er mwyn trafod emosiynau a lles ein disgyblion.

# Cysylltiadau Cymunedol



Mae’r corff llywodraethu yn annog rhieni/gofalwyr a’r gymuned leol i gysylltu â’r ysgol. Mae busnesau lleol yn cefnogi’r ysgol gyda chodi arian ac yn cefnogi dysgu disgyblion trwy ganiatáu i ddisgyblion ymweld.

Mae Swyddog Heddlu Cymunedol yr ysgol yn cynnal ystod eang o weithdai i ddisgyblion ar ‘ddiogelwch rhyngrwyd’, ‘cadw’n ddiogel’ a ‘chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol’ ac yn dod i’r ysgol os oes achos yn codi.

Mae’r flwyddyn academaidd hon wedi bod yn heriol o ran gwahodd y gymuned i mewn i adeilad yr ysgol ac am fynd â disgyblion allan i’r gymuned. Mae Cynllun Gwên yn ymweld â’r Cyfnod Sylfaen ac mae brwsio dannedd dyddiol wedi ail-ddechrau.




Cymerodd disgyblion Blwyddyn 6 rhan yn ‘Cwis Dim Clwm’ yn erbyn ysgolion lleol a trefnwyd gan Menter Cwm Gwendraeth.

Cododd y disgyblion arian i Blant Mewn Angen.



Derbyniodd y Derbyn i Flwyddyn 4 chwistrell ffliw.

Dathlodd yr ysgol gyfan 100 mlwydd yr Urdd gyda Parti a Jambori gan helpu dorri Record Byd dros y we.

Aeth y Cyngor Eco a Ysgol i helpu blannu coed yn Burns, Cydweli. A daeth Burns i blannu coed ar dir yr Ysgol.



Cymerodd POD 3 rhan yn y 'Big Winter Wander' a chodi arian tuag at WWF wrth gerdded o Borth Tywyn i'r Parc Gwledig ym Mhenbre.

Daeth cwmni 'Mewn Cymeriad' i wneud sesiynau drama "Yr Arglwydd Rhys."







Ennillod yr ysgol wobr Ysgol Rhyngwladol.

Cawsom ddiwrnod glas a melyn er mwyn codi arian tuag ar Wcrain.

Bu aelodau staff ar daith prosiect Erasmus i Iwerddon a Groeg.

Aeth POD 2 ar drip i Penclacwydd i ddysgu am yr anifeiliad yno.

Cymerodd Blwyddyn 5 rhan mewn prosiect Scratch ar cyfrifiant.

Cafodd Blynyddoedd 3 – 6 sesiynau criced.

Aeth POD 3 ar drip i'r Acwariwm ym Mhryste fel rhan o'i thema Y Dyfnder Glas.

Daeth Darcy Thomas o Scarlets i gynnal sesiynau rygbi wythnosol.

Cafodd POD 1 ymweldiad gan Siani Sionc ar ol ennill cystadleuaeth canu.



Derbyniodd Blwyddyn 5/6 gwersi ar yr Hen Destament a'r Testament Newydd gan Janet Hawkings o 'Bible Explorers'.

Mynychodd y Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 sioe Jambori yn neuadd yr ysgol.

Aeth Blwyddyn 6 i Wimbledon, Llundain ac i'r ganolfan sgio.

Daeth 'Forces Fitness,' athrawes Zumba a fan hufen ia i'n diwrnod Llawn Lliw i ddathlu Iechyd a Lles

# Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae un disgybl â datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cyflogir cynorthwywyr addysgu i gefnogi tua 26 o ddisgyblion sydd ar hyn o bryd ar Weithred Ysgol a Gweithred Ysgol a Mwy. Mae cyfarfodydd Cynllunio Datblygiad Unigol wedi eu cynnal i drafod nifer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae asiantaethau cysylltiedig yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ac yn cynllunio gyda'i gilydd ar gyfer strategaethau ar gyfer gwella.

Mae nifer o raglenni ymyrraeth wedi ail gychwyn eleni. Lleferydd ac Iaith, Ymwybyddiaeth Ffonolegol, ChATT, Chwarae Positif, Therapi Lego, Talkabout, Read Write Inc, Llythyrau a Seiniau (Ymwybyddiaeth Ffoneg yn CS / CA2), Darllen gyda Sam (CS), Darllen Grŵp Cymraeg - Cyfres Gwybodyn (CA2) a Mathemateg cyn addysgu. Cynhelir grwpiau ymyrraeth i helpu disgyblion gyda rhifedd a llythrennedd o Flynyddoedd Meithrin - 6.

Cyflwynir 'Tric a Chlic' yn y Meithrin ac fe'i defnyddir ar draws y POD 1 a 2 ar gyfer yr holl ddisgyblion. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ymyrraeth darllen wedi digwydd o fewn yr ystafell ddosbarth.

Darperir cefnogaeth gan Miss E. Williams, Mrs S Hughes, Miss J Griffiths, Mrs R Young, Miss M Samuel, Mrs S Jones, Miss L. Moore a Mrs R Rees.

Gall plant dderbyn eu cefnogaeth naill ai yn yr ystafell ddosbarth neu trwy gael eu tynnu allan i ardaloedd addysgu arbennig. Caiff disgyblion fynediad llawn i adnoddau'r ysgol ac mae'r ysgol yn glynu at y Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol.

# Chwaraeon a Champau Eraill



Mynychodd pedwar disgybl o Flwyddyn 6 gwrs hyfforddi ar gyfer Llysgenhadon Ifanc Efydd a drefnwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin. Mae'r cwrs yn eu hysbrydoli i fod yn fodelau rôl ac arweinwyr trwy chwaraeon er mwyn iddynt allu dylanwadu ar eraill i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

Cymerodd Blwyddyn 5/6 rhan yng nghystadleuaeth pêl-droed yn Ysgol Penrhos, Llanelli.

Cymerodd Blwyddyn 5/6 rhan mewn twrnament rygbi yng Nghydweli.

Bu tîm rygbi merched Blwyddyn 5/6 yn cystadlu mewn twrnament yn Llanelli.








Cystadlodd Blwyddyn 5/6 yn nhwrnament rygbi yr Urdd i fechgyn yn Ysgol y Strade.

Cafodd y disgyblion gyfle i weld sioe 'BMX Stunt' yn yr ysgol.

Cystadlodd Blwyddyn 5/6 mewn twrnament rygbi TAG yr Urdd yn Ysgol y Strade.

Cafodd Blwyddyn 6 wersi sgio yn y Parc Gwledig.

Bu tîm pêl-rhwyd Blwyddyn 5/6 yn fuddugol yn cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin.





# Darparu cyfleusterau toiled

Mae toiledau ym mhob un o'r chwe dosbarth Cyfnod Sylfaen ar y llawr gwaelod a Blwyddyn 3 a 4 ar y llawr cyntaf.

Ar y llawr cyntaf, lleolir toiledau Cyfnod Allweddol 2 yn ganolog. Oherwydd y pandemig mae pob grŵp blwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi cael 2 doiled yr un ac mae disgyblion yn dilyn y system un ffordd.

Darperir dŵr poeth, sebon hylif a hylif diheintio dwylo ym mhob toiled. Mae rholiau toiled a thywelion dwylo yn cael eu newid yn ddyddiol a'u glanhau i safon uchel bob dydd. Gosodir sychwyr dwylo drwyddi draw.

# Ystadegau Presenoldeb Awdurdodedig ac Anawdurdodedig

Roedd presenoldeb ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-22 yn 90.74% *

Bydd unrhyw blentyn sy'n disgyn o dan 80% yn cael ei gyfeirio at Swyddog Lles y Sir.

Os yw eich plentyn yn absennol a fyddech mor garedig a chysylltu â'r ysgol drwy ffôn neu lythyr neu bydd absenoldeb eich plentyn yn cael ei ystyried yn anawdurdodedig.

Mae'r ystadegau canlynol yn dangos y nifer o absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig fel canran o'r cyfanswm posibl yn y tymor.

**Parc y Tywyn**

**From:** *01/09/2021* **To:** *19/07/2022*

**School Summary**

| | *Attended* | *Authorised Absence* | *Unauthorised Absence* | *Total* |
|---|---|---|---|---|
| *Sessions* | 81084 | 7193 | 1086 | 89363 |
| **Percentage** | 90.74% | 8.05% | 1.22% | 100.00% |

| TYMOR | GYDAG AWDURDOD | HEB AWDURDOD |
|---|---|---|
| HYDREF 2021 | 8.8% | 1.29% |
| GWANWYN 2022 | 8.7% | 1.9% |
| HAF 2022 | 6.45% | 1.27% |

***Presenoldeb wedi cael ei effeithio'n ddifrifol gan y pandemig Covid-19.***

**Cais.** Mae nifer sylweddol o blant bellach yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer dechrau'r ysgol. Mae hyn nid yn unig yn eu rhoi dan anfantais ond hefyd yn tarfu ar ddysgu eraill. Os gwelwch yn dda, gwnewch bob ymdrech i sicrhau bod eich plant yn cyrraedd ar amser gan fod hyn yn eu helpu i ddatblygu arferion a fydd o fantais iddynt, nid yn unig nawr, ond, yn y dyfodol.

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol a gall colli ysgol gael effaith sylweddol ar gyflawniad dros gyfnod o flwyddyn fel y dangosir isod:

| | | |
|---|---|---|
| Presenoldeb 95-100% | Y cyfle gorau o lwyddiant | Mae'ch plentyn yn cymryd mantais lawn o bob cyfle dysgu. |
| Presenoldeb 90-95% | Wedi colli o leiaf 2 wythnos o ddysgu | Boddhaol. Efallai y bydd rhaid i'ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny â gwaith. |
| Presenoldeb 85-90% | Wedi colli o leiaf 4 wythnos o ddysgu | Gallai'ch plentyn fod mewn perygl o dangyflawni ac mae angen cefnogaeth ychwanegol oddi wrthych i ddal i fyny â gwaith. |
| Presenoldeb 80-85% | Wedi colli o leiaf 5½ wythnos o ddysgu | Mae presenoldeb gwael eich plentyn yn cael effaith arwyddocaol ar ddysgu. |
| Presenoldeb islaw 80% | Wedi colli o leiaf 7½ wythnos o ddysgu | Mae'ch plentyn yn colli addysg eang a chytbwys. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn. |

# Dyddiadau Tymhorau a Gwyliau Ysgol 2022-2024

| Tymor | Tymor yn dechrau | Hanner tymor | Diwedd y tymor |
|---|---|---|---|
| Haf 2022 | Dydd Llun 25ain Ebrill | Dydd Llun 30ain Mai - Dydd Gwener 3ydd Mehefin | Dydd Mawrth 19eg Gorffennaf |
| Hydref 2022 | Dydd Llun 5ed Medi | Dydd Llun 31ain Hydref - Dydd Gwener 4ydd Tachwedd | Dydd Gwener 23ain Rhagfyr |
| Gwanwyn 2023 | Dydd Llun 9fed Ionawr | Dydd Llun 20fed Chwefror - Dydd Gwener 24ain Chwefror | Dydd Gwener 31ain Mawrth |
| Haf 2023 | Dydd Llun 17eg Ebrill | Dydd Llun 29ain Mai - Dydd Gwener 2il Mehefin | Dydd Gwener 21ain Gorffennaf |
| Hydref 2023 | Dydd Llun 4ydd Medi | Dydd Llun 30ain Hydref - Dydd Gwener 3ydd Tachwedd | Dydd Gwener 22ain Rhagfyr |
| Gwanwyn 2024 | Dydd Llun 8fed Ionawr | Dydd Llun 12fed Chwefror - Dydd Gwener 16eg Chwefror | Dydd Gwener 22ain Mawrth |
| Haf 2024 | Dydd Llun 8fed Ebrill | Dydd Llun 27ain Mai - Dydd Gwener 31ain Mai | Dydd Gwener 19eg Gorffennaf |

### Dyddiau HMS Penodol

- Dydd Mercher 1af Medi 2021
- Dydd Gwener 2il Medi 2022
- Dydd Gwener 1af Medi 2023

Ar gyfer diwrnodau HMS Dynodedig i'r ysgolion, cysylltwch â'r ysgol berthnasol. Fel arfer, mae gan ysgolion 5 diwrnod HMS yn ystod y flwyddyn academaidd (gan gynnwys y diwrnodau dynodedig).
Sylwch: Mae Llywodraeth Cymru wedi galluogi ysgolion i gau i ddysgyblion am ddiwrnod HMS ychwanegol yn ystod tymhorau'r haf yn 2020, 2021 a 2022, yn benodol ar gyfer Dysgu Proffesiynol i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

### Gwener y Groglith

- 15fed Ebrill 2022
- 7fed Ebrill 2023
- 29ain Mawrth 2024

### Gŵyl Fai

- 2il Mai 2022
- 1af Mai 2023
- 6ed Mai 2024

Nodwch y gallai manylion y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi'r Llywodraeth. Nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golledion yn sgil gorfod newid trefniadau gwyliau oherwydd newidiadau o'r fath.

## Amserlen POD 1

| Sesiwn Bore | Cinio | Sesiwn Prynhawn |
|---|---|---|
| **Meithrin Rhan Amser** 09:00-11:30 | | |
| **Meithrin & Derbyn** 08:50-11:30 | 11:30-12:30 | 12:30-15:20 |

## Amserlen POD 2

| Sesiwn Bore | Cinio | Sesiwn Prynhawn |
|---|---|---|
| **Blwyddyn 1, 2 a 3** 08:50-12:00 | 12:00-13:00 | 13:00-15:20 |

## Amserlen POD 3

| Sesiwn Bore | Cinio | Sesiwn Prynhawn |
|---|---|---|
| **Blwyddyn 4, 5 a 6** 08:50-12:30 | 12:30-13:30 | 13:30-15:25 |

# Datganiad o Wariant

**PERFFORMIAD ARIANNOL 2021/22**

**Ysgol Parc y Tywyn**

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

**EICH CYNGOR arleinamdani**
www.sirgar.llyw.cymru

**YOUR COUNCIL doitonline**
www.carmarthenshire.gov.wales

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eich cyf / Your ref: | | Gofynner am / Please ask for: | **Susannah Nolan** |
| Fy nghyf / My ref: | C/SN/ead | Llinell Uniongyrchol / Direct Line: | **01267 246717** |
| Dyddiad / Date: | **04/07/2022** | E-bost Uniongyrchol / Direct E-mail: | **SNolan@sirgar.gov.uk**<br>**SNolan@carmarthenshire.gov.uk** |

2177 Parc y Tywyn

Annwyl Bennaeth

Dear Headteacher

Gwelir isod crynodeb sefyllfa ariannol terfynol eich ysgol ar gyfer 2021/22.

Please see below a summary of your school's final outturn position for 2021/22.

| | £ | |
|---|---|---|
| Gwariant Net 2021/22 | 883,946 | Net Expenditure 2021/22 |
| Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2021/22 | -912,406 | Formula Funding Allocation 2021/22 |
| Arian Wrth Gefn a Ddygwyd Ymlaen o 2020/21 | -100,287 | Surplus Brought Forward from 2020/21 |
| Arian Wrth Gefn yn Cario Drosodd i 2022/23 | -128,747 | Surplus Carried Forward to 2022/23 |

Atodaf hefyd crynodeb o'r grantiau a dderbyniwyd gan eich ysgol yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22. Buaswn yn ddiolchgar petaech yn medru trefnu rhannu holl gynnwys y llythyr yma gyda Chorff Llywodraethol yr ysgol

I also attach a summary of grants received by your school during the 2021/22 financial year. I would be grateful if you could arrange for all the contents of this letter to be shared with the school's Governing Body.

Pe bai gennych unrhyw ymholiad ynglŷn â'r uchod, yna cysylltwch â'r Adran RHYLL ar naill ai (01267) 246709, 246710 neu 246711.

If you have any queries regarding the above, please contact the LMS Section on either (01267) 246709, 246710 or 246711.

Yn gywir / Yours sincerely

**Gareth Morgans**
Cyfarwyddwr Addysg a Phlant / Director of Education and Children


**GARETH MORGANS B Ed. M. Sc**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin. SA31 3HB
Director of Education and Children's Services
Department for Education and Children,
Building 2, St. David's Park, Jobs Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire. SA31 3HB


*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg*
*Carmarthenshire County Council welcomes correspondence in Welsh or English*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE